**Teitl: Crefydd a Chwaraeon**

| Teitlau | Chwaraeon + Cristnogaeth = ? | A oes tyndra rhwng crefydd a chwaraeon? | Y Bel Hirgron, Cwpan Webb-Ellis a Chrefydd - Croeso i Japan 2019 |
|---|---|---|---|
| **Rhesymeg** | **YMWADIAD:** Mae'r Nodiadau i Athrawon wedi'u diweddaru er mwyn gallu defnyddio'r adnodd drwy Gwricwlwm i Gymru. Wedi dweud hynny, mae cynnwys yr erthyglau wedi'i archifo ac nid yw'r wybodaeth wedi'i diweddaru. Mae'r erthyglau yn cael eu cadw ar y wefan gan fod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol i Gwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br><br>**Pedwar diben 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes'**<br>**Drwy ddysgu am Grefydd a Chwaraeon fel rhan o'u gwersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu yn:**<br>• Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;<br>• Unigolion iach a hyderus sydd â gwerthoedd cadarn ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesol;<br>• Cyfranogwyr mentrus, creadigol sy'n rhoi o'u hegni a'u sgiliau er budd pobl eraill;<br>• Dinasyddion moesol, dysgedig a fydd yn ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.<br><br>**Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru**<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i:<br><br>• Ymgysylltu â chwestiynau athronyddol a thyngedfennol, a'u harchwilio<br>• Ymgymryd ag ymholiadau ac ymgysylltu â ffynonellau o ddoethineb ac athroniaethau<br>• Datblygu a mynegi eu safbwyntiau dysgedig eu hunain<br>• Defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am safbwyntiau byd-eang crefyddol a heb fod yn grefyddol i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain<br>• Archwilio'r ffyrdd mae argyhoeddiadau athronyddol crefyddol a heb fod yn grefyddol wedi dylanwadu ar brofiad dynol drwy gydol hanes<br>• Gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a heb fod yn grefyddol a defnyddio tystiolaeth ohonynt i ymgysylltu â materion moesegol a moesol<br>• Archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach ac ymateb yn sensitif iddynt<br>• Datblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau moesol a'u hysbrydolrwydd<br>• Trafod eu persbectifau eu hunain a phersbectifau eraill, a myfyrio arnynt | | |

<table>
<tr><td>Teitlau</td><td>Chwaraeon + Cristnogaeth = ?</td><td>A oes tyndra rhwng crefydd a chwaraeon?</td><td>Y Bel Hirgron, Cwpan Webb-Ellis a Chrefydd - Croeso i Japan 2019</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="3">Y lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio amrywiaeth o gysyniadau yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r is-lensys isod:<br>• Chwilio am ystyr a diben;<br>• Y byd naturiol a phethau byw;<br>• Hunaniaeth a pherthyn;<br>• Awdurdod a dylanwad;<br>• Perthnasoedd a chyfrifoldeb;<br>• Gwerthoedd a moeseg;<br>• Taith bywyd;<br><br>*Noder bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu pennu'n lleol drwy faes llafur cytunedig. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig ei hun ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid i ysgolion ei ystyried. Mae pob maes llafur sydd wedi'i gytuno wedi ystyried fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cyfeirir atynt uchod ac isod.<br><br>Dolenni Defnyddiol:<br><br>Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance<br>Canllawiau Dyniaethau Hwb - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities<br>Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/statements-of-what-matters/<br>Themâu Trawsgwricwlaidd - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#cross-cutting-themes</td></tr>
<tr><td>Geirfa allweddol</td><td>Sylwebyddion - pobl sy’n disgrifio beth sy’n digwydd mewn gêm ar y radio/teledu/we. Commentators.<br><br>Ymestyn - cyrraedd at berson neu at rywbeth, ehangu. To reach out, to extend.</td><td>Gwahaniaethu - trin grŵp o bobl yn wahanol am reswm annheg.<br><br>Kesh – arferiad Siciaid o beidio torri’r gwallt nac eillio.<br><br>5K - pum rheol sy’n cael eu cadw gan Siciaid</td><td>Cwpan Webb-Ellis - yr enw ar gwpan rygbi'r byd wedi ei henwi ar ôl William Webb-Ellis.<br><br>Shinto - crefydd wreiddiol Japan.<br><br>Bwdhaeth - crefydd sy'n dilyn dysgeidiaeth y Bwdha.</td></tr>
</table>

| Teitlau | Chwaraeon + Cristnogaeth = ? | A oes tyndra rhwng crefydd a chwaraeon? | Y Bel Hirgron, Cwpan Webb-Ellis a Chrefydd - Croeso i Japan 2019 |
|---|---|---|---|
| | Rhufeiniaid - fe wnaeth yr Apostol Paul ysgrifennu llawer o lythyrau at yr eglwysi Cristnogol cynnar. Roedd y llythyrau'n egluro pethau am Dduw, Iesu, yr Ysbryd Glân, ac yn trio helpu'r Cristnogion cyntaf i fyw fel dilynwyr Iesu. Ysgrifennodd lythyr at yr eglwys oedd yn cyfarfod yn Rhufain. Mae'r llythyr yn Nhestament Newydd y Beibl.<br><br>Addoli - anrhydeddu neu fawrygu, parchu, plygu (gerbron) Duw/Iesu; mynd i wasanaeth crefyddol. *To worship, adore.*<br><br>Gogoneddu - Rhoi gogoniant i, dweud neu feddwl pa mor ffantastig ydy rhywun (yn enwedig Duw), mawrygu, moli, bendithio. *To glorify, extol, magnify, praise, bless.*<br><br>Arfogi - rhoi'r tŵls sydd eu hangen i rywun wneud rhywbeth. *To equip.*<br><br>Annog - calonogi, ceisio cael person i symud ymlaen i wneud rhywbeth. *To encourage.*<br><br>Cyfunwyd - wrth gyfuno mae dau beth yn dod at ei gilydd. *To combine.*<br><br>Aml-gyfryngol - yn defnyddio gwahanol ddulliau cyfathrebu e.e. lluniau/ffilmiau/geiriau/sain. *Multimedia.* | cydwybodol.<br><br>Rhagfarn – barnu pobl ymlaen llaw heb reswm digonol; e.e. ar sail lliw neu grefydd.<br><br>Ymgroesi – gwneud arwydd y groes.<br><br>Elusen – rhoi cymorth i bobl mewn angen.<br><br>Sujood – y symudiad o blygu o flaen Allah mewn gweddi. | Defod - seremoni sy'n cael ei dilyn yn gyson.<br><br>Matsuri - gwyliau ysbrydol yn Japan.<br><br>Kami - duw neu dduwiau y mae crefydd Shinto yn credu sydd y tu mewn i bopeth byw.<br><br>Cysegr - man sanctaidd i addoli.<br><br>Teml - man sanctaidd i addoli.<br><br>Anthemau cenedlaethol - can sy'n crynhoi hunaniaeth cenedl. |

| Teitlau | Chwaraeon + Cristnogaeth = ? | A oes tyndra rhwng crefydd a chwaraeon? | Y Bel Hirgron, Cwpan Webb-Ellis a Chrefydd - Croeso i Japan 2019 |
|---|---|---|---|
| **Geiriau chwilio** | Christians in Sport<br><br>Lloyd Thomas<br><br>Joseff Edwards<br><br>Chwaraeon a Christnogaeth<br><br>Sports Plus<br><br>Sgrîn Fawr | Gwahaniaethu<br><br>Kesh<br><br>Y 5K<br><br>Rhagfarn<br><br>Catholig<br><br>Protestannaidd<br><br>Elusen<br><br>Ymgroesi<br><br>Sujood | Cwpan Rygbi'r Byd<br><br>Japan<br><br>Rygbi<br><br>William Webb-Ellis<br><br>Shinto Bwdhaeth<br><br>Cysegr<br><br>Teml<br><br>Gweddi<br><br>Môr Tawel<br><br>De Affrica<br><br>Seland Newydd |
| **Tasgau dosbarth** | Tasgau estynedig sy'n gofyn i'r disgyblion i ddefnyddio'r 3 erthygl, cyfeirio at gredoau/dysgeidiaethau ac arferion crefyddol wrth ymateb i gwestiynau sylfaenol/crefyddol. | | |
| **Tasgau ymestynno** | 1. Beth am gynnal trafodaeth i'r dosbarth neu mewn grwpiau llai? | 1. Casglwch mwy o wybodaeth am safiad Eric Liddell a rhowch eich barn ar hynny. Beth | 1. Ymchwiliwch fwy i gefndir crefyddol Japan gan roi |

| Teitlau | Chwaraeon + Cristnogaeth = ? | A oes tyndra rhwng crefydd a chwaraeon? | Y Bel Hirgron, Cwpan Webb-Ellis a Chrefydd - Croeso i Japan 2019 |
|---|---|---|---|
| I | A yw'n iawn cymysgu crefydd/ffydd a Chwaraeon?<br><br>2. Dyluniwch boster yn hysbysebu Noson Sgrin Fawr sydd i'w chynnal gan gymuned grefyddol lleol. Cofiwch am yr angen i gynnwys cyfeiriad at y slot rhannu ffydd.<br><br>3. Oes gen ti allu arbennig mewn rhyw gamp neu'i gilydd (rygbi, pêl-rwyd, hoci, criced, nofio?) Mae Christians in Sport yn credu mai Duw sydd wedi rhoi'r gallu hwn i bobl.<br>Pa ddoniau arall sydd gen ti? (e.e. ysgrifennu, barddoni, tynnu llun….) Sut allai Cristion ddefnyddio'i ddawn/doniau i foli Duw?<br><br>4. Ar ôl i ti edrych ar y ffilm 'Wedi eich galw i chwarae', gwna ychydig o waith ymchwil ac ysgrifenna ddarn byr yn dweud hanes un person sy'n enwog am chwarae mewn camp arbennig ac sy'n dweud ei fod yn Gristion e.e. pwy ydy Garin Jenkins, beth wnaeth e yn y byd rygbi a beth sydd ganddo i'w ddweud am ei ffydd Gristnogol.<br><br>5. Mae ymarferiadau a chystadlaethau chwaraeon ar fore Sul yn broblem i gapeli/eglwysi sydd am gynnal Ysgol | oedd ei hanes ar ôl y Gemau Olympaidd?<br><br>2. 'I mi mae hyn yn wahaniaethu 100%'. Dyma farn un o arweinwyr y Siciaid yng Nghaerdydd ar wahardd bocswyr barfog. Roedd y Bwrdd Bocswyr Amatur o'r farn mae ystyriaethau iechyd; gweld y marciau ar yr wyneb, ddylai dod gyntaf. Ceisiwch lunio tabl gyda dadleuon ar y ddwy ochr. https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-48790893<br><br>3. Gwrthododd Muhammad Ali fynd i ymladd yn Rhyfel Fietnam. Beth oedd ei resymau dros hynny a sut y dioddefodd o ganlyniad?<br><br>4. 'Mae rhai'n credu fod pêl-droed yn fater o fywyd a marwolaeth ... Gallaf eich sicrhau ei fod yn llawer iawn pwysicach na hynny!'. A ydy Bill Shankly'n gôr ddweud neu a oes perygl i chwaraeon fod yn grefydd i rai pobl?<br><br>5. Bu llawer o drafod ar y cyflogau anferth a dderbynnir gan rai chwaraewyr pêl-droed. Mae'n amlwg fod Mo Salah wedi bod yn barod i rannu ei gyfoeth. Ymchwiliwch i'w waith elusennol. A oes eraill yn y byd chwaraeon wedi gwneud yr un fath? Beth sydd wedi eu hysgogi i helpu eraill?<br><br>6. Mae tuedd i ferched Mwslimaidd gael eu darlunio mewn ffordd arbennig. Darllenwch am rai merched sydd wedi chwalu'r | sylw arbennig i Shinto a Bwdhaeth.<br><br>2. Trafodwch i ba raddau y gellir galw rygbi yn 'grefydd'.<br><br>3. Edrychwch ar eiriau anthemau'r gwledydd sy'n cystadlu yng nghwpan y byd eleni - pa rai ohonynt sy'n 'grefyddol' a pha rai sydd heb unrhyw gyfeiriad crefyddol ynddynt? Oes yna reswm am hyn?<br><br>4. Trafodwch a yw hi'n iawn i ofyn i Dduw ffafrio un genedl yn erbyn y llall. |

| Teitlau | Chwaraeon + Cristnogaeth = ? | A oes tyndra rhwng crefydd a chwaraeon? | Y Bel Hirgron, Cwpan Webb-Ellis a Chrefydd - Croeso i Japan 2019 |
|---|---|---|---|
| | Sul/Clwb Cristnogol i blant ac ieuenctid neu oedfa i deuluoedd. Mae yna densiwn yn codi oherwydd hyn. Beth fyddet i'n ei awgrymu i geisio datrys y broblem a helpu plant ac ieuenctid i wneud y ddau beth - bod yn rhan o chwaraeon a hefyd yn rhan o weithgarwch y capel/eglwys? | stereoteipio a fu - yn arbennig ym maes chwaraeon: <https://notwhoyouthink.walesonline.co.uk/?_ga=2.156067835.1564353989.1562424484-151084587.1561276412> | |
| **Adnoddau pellach** | https://www.bing.com/videos/search?q=sports+plus+brecon+highlights&view=detail&mid=D9A92C94E8B519406333D9A92C94E8B519406333&FORM=VIRE)<br><br>https://www.bing.com/videos/search?q=christians+in+sport+welsh+film&view=detail&mid=946F5C542EDA017986EE946F5C542EDA017986EE&FORM=VIRE<br><br>https://www.bing.com/videos/search?q=christians+in+sport+welsh+film&qpvt=christians+in+sport+welsh+film&FORM=VDRE | | https://www.youtube.com/watch?v=EfhkuhTLjJ8 |